# Nodiadau Addysgu Her Glaniwr

Mae'r gweithgaredd hwn yn ddull o gynnwys rhaglennu mewn her Ffiseg neu Beirianneg. Mae hwn wedi'i addasu'n llwyddiannus i'w ddefnyddio yng nghwricwlwm CA2, CA3 a TGAU. Mae hefyd yn her adeiladu tîm dda i bob oed.

Mae'r Taflenni Gwaith Rhaglennu Glaniwr a ddarperir yn ein galluogi i ddefnyddio Micro:Bits i gyfathrebu data byw ar gyflymiad gwrthrych sy'n cwympo.

Ar gyfer Ffiseg, gellir cynnwys Micro:Bits mewn profion parasiwt sy'n edrych ar *rymoedd, disgyrchiant, llusgiad, cyflymder terfynol* a *chyflymiad*.

Ar gyfer Peirianneg, mae geiriad yr her yn cael ei newid i 'Glaniwr' gan ei fod yn ddisgrifiad mwy agored nad yw'n arwain myfyrwyr yn awtomatig i greu parasiwtiau.

Yn dibynnu ar argaeledd Micro:Bits, gallai'r myfyrwyr raglennu dau yr un (derbynnydd a thrawsyrrydd), un yr un (y trawsyrrydd) a defnyddio derbynnydd sydd wedi'i raglennu ymlaen llaw, neu fynd ati i rag-raglennu'r trawsyrrydd a'r derbynnydd i'w defnyddio yn y profion .

Os ydych chi'n defnyddio amryfal drawsyryddion, sicrhewch fod pob un ar sianel radio wahanol i osgoi ymyriant. Mae yna ddewis o 256 sianel (0-255). Os mai dim ond un derbynnydd a ddefnyddir, rhaid sicrhau eich bod yn newid y sianel radio i gyd-fynd â'r trawsyrrydd sy'n cael ei brofi (peidiwch ag anghofio lawrlwytho'r newid i'r Micro:Bit cysylltiedig).

Mae'r rhaglen a nodir yn y taflenni gwaith wedi'i chynllunio i roi gwerth absoliwt ar gyfer cyflymiad gan fod y Micro:Bit yn mesur cyfeiriadedd, ac felly'n rhoi gwerthoedd cyflymiad negyddol a all beri dryswch.

Gellir arbed pob graff fel ffeil Excel er mwyn ei argraffu a/neu ddadansoddi'r data ymhellach.

**Pwysig!**

Peidiwch â gollwng Micro:Bit heb unrhyw amddiffyniad / parasiwt o unrhyw uchder. Maent yn fregus.

Ar gyfer glaniwr, ni ddylech ei ollwng fwy na 1.75 metr. Os nad ydych chi'n sicr y bydd y cynllun yn amddiffyn y Micro:Bit, mae'r cynllun hwnnw'n fethiant ac ni chaiff ei ollwng i'w brofi.

Mae angen mwy o uchder i brofi parasiwt, felly gwnewch brofion cychwynnol gyda llwyth o'r un màs, yna penderfynwch pa gynlluniau sy'n ddiogel i'w profi gyda'r Micro:Bit.

Gwnewch yn siŵr nad oes unrhyw lud na thâp yn cael ei roi ar y Micro:Bit yn uniongyrchol - dylai'r cynllun olygu ei bod yn hawdd gosod a thynnu'r trawsyrrydd.